**Disgrifiad o'r Swydd**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Oedolion (cyfnod penodol tan fis Mawrth 2027 – wedi'i ariannu gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol)** | | |
| **Rhif y Swydd** | **BG 13913** | **Gradd** | **JNC1 (£55,997 i £61,393)** |
| **Lleolaid** | **Gweithio ystwyth** | **Oriau Gwaith** | **37 awr yr wythnos** |
| **Lwfans Defnyddiwr Car** | | **Datgeliad** | **Manylach** |
| **Cyswllt** | **Alyson Hoskins Ffôn: 01495 355272** | **Diweddarwyd** | **Mai 2024** |

**Prif Ddiben y Swydd**

Yn atebol i: Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Yn gyfrifol am:

- Arweinydd strategol ar gyfer timau ardal gofal cymunedol (dwyrain a gorllewin)
- Arweinydd strategol ar gyfer Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Oedolion
- Arweinydd strategol ar gyfer y bartneriaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd (BIPAP), gan gynnwys Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth / Cymunedau Tosturiol / cynlluniau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a mentrau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
- Arweinydd strategol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion o ran datblygu a hyrwyddo profiad bywyd / llais cymunedol oedolion agored i niwed yn ein hagenda gwella gwasanaethau

**Prif Gyfrifoldebau**

**Fel aelod o dîm arwain y Gwasanaethau Oedolion, byddwch yn gwneud y canlynol:**

1. Cyfrannu at arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Oedolion, gan gynnwys cyflawni ei gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau a pholisïau ar draws ein timau rheoli gofal a darparu.

2. Datblygu a gweithredu cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, yn unol ag egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3. Gweithio gyda phartneriaid allweddol / asiantaethau allanol i ddatblygu cymorth effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r dinesydd, gan gynnwys cyfleoedd i weithio ar draws gwasanaethau integredig.

4. Cefnogi aelodau etholedig o ran deall darpariaeth, datblygiad a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

5. Datblygu, monitro a gwerthuso sut rydym yn darparu cymorth i oedolion agored i niwed er mwyn codi safonau a chyfrannu at foderneiddio Gwasanaethau Oedolion trwy waith datblygu sefydliadol, rheoli newid a chynllunio'r gweithlu.

6. Rheoli a chyfrannu at foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol trwy ddatblygu sefydliadol a chynllunio'r gweithlu.

7. Rheoli'r cyllidebau perthnasol, gan sicrhau bod defnydd priodol ac effeithiol yn cael ei wneud o adnoddau ariannol / grantiau allanol lle maent ar gael. Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr cyllid i wneud y mwyaf o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddatblygu cymorth i oedolion agored i niwed.

8. Sicrhau bod data sy'n ymwneud â dinasyddion unigol yn cael ei gofnodi a bod gwybodaeth am berfformiad a gweithgareddau yn cael ei hadrodd fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad. Bydd disgwyl i chi gyfrannu at ddatblygu systemau a fydd yn darparu gwybodaeth reoli ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain ac arweinyddiaeth y cyngor.

9. Datblygu, gosod a monitro safonau a mecanweithiau ar gyfer adolygu polisi ac arfer adrannol. Sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyflawni a'u cynnal wrth ddarparu gwasanaethau darparwr o ansawdd uchel (cartrefi gofal) ac wrth gynnal gwaith asesu, cynllunio gofal a chymorth, ac adolygiadau.

10. Ymgysylltu â rheoleiddwyr allanol a sicrhau ein bod yn dangos ac yn darparu gofal a chymorth priodol a gwybodaeth ariannol a pherfformiad briodol.

11. Sicrhau bod gan y gweithlu gymwysterau, cymorth a hyfforddiant digonol i gyflawni gofynion y gwasanaeth ar draws timau.

12. Sicrhau bod arferion a safonau proffesiynol gweithwyr cymdeithasol ac aelodau eraill o'r tîm yn cael eu hyrwyddo, eu cefnogi a'u monitro trwy oruchwyliaeth reolaidd.

13. Sicrhau bod yr holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag oedolion agored i niwed yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion deddfwriaeth, canllawiau a pholisi'r cyngor.

14. Creu cyfleoedd i fwyhau cymorth cyffredinol / ataliol i sicrhau canlyniadau personol oedolion o fewn Blaenau Gwent.

15. Hyrwyddo polisïau gwrthwahaniaethol a chyfle cyfartal yr awdurdod, glynu at egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol, a sicrhau ymrwymiad i arfer gwrthwahaniaethol.

16. Cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o ddatganiad polisi'r awdurdod ar iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

17. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

| 1. Cymwysterau a Phrofiad | Dull Asesu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (nodwch) | Cyfnod Prawf |
| Addysg hyd at lefel gradd mewn cymhwyster gwaith cymdeithasol neu gymhwyster iechyd / gofal cymdeithasol proffesiynol cyfatebol, gan gynnwys proffesiynau perthynol i ofal iechyd, h.y. nyrs / therapydd galwedigaethol / ffisiotherapydd ac ati | Hanfodol | ✓ | | | |
| Cymhwyster mewn rheolaeth / arweinyddiaeth | Hanfodol | ✓ | | | |
| **Profiad** | | | | | |
| Profiad sylweddol o weithio ar lefel reoli mewn sefydliad sector cyhoeddus / iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol | Hanfodol | ✓ | | | |
| Hanes amlwg o reoli / arwain a datblygu gwasanaeth iechyd a/neu ofal cymdeithasol yn llwyddiannus | Hanfodol | ✓ | | | |
| Profiad o roi newid llwyddiannus ar waith o fewn amgylchedd gwasanaethau cymdeithasol / iechyd neu amgylchedd tebyg | Hanfodol | | ✓ | | |
| Profiad o sefydlu diwylliant perfformiad a monitro safonau perfformiad yn effeithiol | Hanfodol | | ✓ | | |
| Profiad o weithio ar draws ffiniau corfforaethol a rhyngasiantaethol | Hanfodol | ✓ | | | |
| Tystiolaeth o reoli / monitro adnoddau ac ariannol yn llwyddiannus, gan gynnwys tystiolaeth o ddatrys blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, llunio cyllidebau, a gwneud y mwyaf o'r grantiau sydd ar gael | Hanfodol | ✓ | | | |
| Profiad a dealltwriaeth sylweddol o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol ac iechyd allweddol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a/neu reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 | Hanfodol | ✓ | | | |
| Profiad o arwain model darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar hybu ac annog annibyniaeth bersonol ac atebion sy'n | Hanfodol | ✓ | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| seiliedig ar ganlyniadau i oedolion agored i niwed | | | | | |
| Profiad o arwain gwasanaethau gofal a reoleiddir, h.y. cartrefi gofal / gofal cartref / byw â chymorth ac ati | Dymunol | ✓ | | | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | | | | |
| Ymrwymiad i ragoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid | Hanfodol | | ✓ | | |
| Ymrwymiad i ddiwylliant sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn atal gwahaniaethu | Hanfodol | | ✓ | | |
| Cyfeiriadedd corfforaethol cryf | Hanfodol | | ✓ | | |
| Sgiliau TG cadarn gyda sgiliau rheoli gwybodaeth a chyllid da | Hanfodol | ✓ | | | |
| Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol | Hanfodol | | ✓ | | |

| **2. Gofynion Arbennig** | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (nodwch) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddu ar drwydded yrru gyfredol a gallu cael mynediad at gerbyd at ddibenion gwaith | Hanfodol | ✓ | | | |
| Gallu yn y Gymraeg | Dymunol | ✓ | | | |

| **3. Gofynion y Gymraeg (dewiswch un o'r canlynol)** | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (Nodwch y manylion) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol (lefel 0 ym mhob un o'r Lefelau Iaith Gymraeg uchod). | Dymunol | ✓ | | | |

| | Lefel 0 | Lefel 1 Mynediad | Lefel 2 Sylfaen | Lefel 3 Canolradd | Lefel 4 Uwch | Lefel 5 Hyfedredd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando/Siarad | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Darllen/Dealltwriaeth | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

I gael rhagor o wybodaeth am y lefelau uchod, darllenwch "[Canllawiau Sgiliau Cymraeg ]" ar wefan Blaenau Gwent.

## 4. Cymwyseddau Personol

Ystyrir bod pob cymhwysedd yn hanfodol, er y cydnabyddir y gellir cyflawni rhai dros gyfnod o amser. Disgwylir i'r holl weithwyr ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r fframwaith priodol.
Yn ychwanegol at y rhai a asesir fel rhan o'r broses recriwtio, caiff cymwyseddau eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedi hynny drwy gynllun hyfforddi perfformiad yr awdurdod.

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Arwain Pobl** | Yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac yn esiampl i eraill | | | | ✓ |
| | Yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol ac yn atebol am ei weithredoedd | | | | ✓ |
| | Yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad ac uchelgais pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol | | | | ✓ |
| | Yn herio ymddygiad / agweddau annerbyniol | | | | ✓ |
| | Yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau | | | | ✓ |
| | Yn amddiffyn cydweithwyr rhag beirniadaeth amhriodol | | | | ✓ |
| | Yn dangos ac yn enghraifft o gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith | | | | ✓ |

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Cyflawni'r Weledigaeth** | Yn cyfleu golwg gymhellol ar y dyfodol | | | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod y weledigaeth yn ystyrlon i bawb | | | | ✓ |
| | Yn herio'r weledigaeth yn briodol | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo'r weledigaeth yn rhagweithiol i eraill | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gosod a Chyflawni Targedau Uchelgeisiol** | Wedi ymrwymo i wella ei berfformiad ei hun a pherfformiad eraill yn barhaus | | | | ✓ |
| | Yn cytuno ar dargedau perfformiad uchelgeisiol a blaenoriaethau ar gyfer ei hun a phobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn gosod safonau uchel ac yn cadw ei hun ac eraill yn canolbwyntio ar ganlyniadau | | | | ✓ |
| | Yn rhoi adborth rheolaidd ac adeiladol ar berfformiad y gwasanaeth, perfformiad y tîm a pherfformiad unigol | | | | ✓ |
| | Yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiant | | | | ✓ |
| | Yn herio perfformiad gwael yn briodol | | | | ✓ |
| | Yn chwilio am gyfleoedd dysgu o ganlyniadau | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Grymuso Ein Pobl** | Yn annog ac yn datblygu atebolrwydd personol mewn eraill | | | | ✓ |
| | Yn gweithio i nodi anghenion hyfforddi a datblygu mewn eraill | | | | ✓ |
| | Yn annog eraill i feddwl drostynt eu hunain | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo cymryd risgiau ac yn cefnogi’n briodol | | | | ✓ |
| | Yn defnyddio ac yn parchu sgiliau, profiad ac uchelgais pobl eraill ar bob lefel | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo ac yn arddangos dysgu a datblygiad personol a phroffesiynol ynddo’i hun ac eraill | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Cyfathrebu** | Yn creu ac yn annog cyfathrebu dwy ffordd y tu mewn a’r tu allan i’r sefydliad | | | | ✓ |
| | Yn defnyddio dulliau cyfathrebu priodol a manwl gywir | | | | ✓ |
| | Yn meddu ar hygrededd personol gydag amrywiaeth o wahanol grwpiau ac yn defnyddio rhwydweithiau’n effeithiol | | | | ✓ |
| | Yn cyfathrebu'n gadarnhaol ac yn barchus | | | | ✓ |
| | Yn gwrando’n weithredol ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn gwirio ei ddealltwriaeth ei hun a dealltwriaeth pobl eraill | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gwneud Penderfyniadau ar Sail Gwybodaeth** | Yn barod i weithredu a bod yn atebol | | | | ✓ |
| | Yn ystyried datrys problemau fel cyfle i wella | | | | ✓ |
| | Yn cynnwys eraill wrth wneud penderfyniadau | | | | ✓ |
| | Yn camu’n ôl ac yn cymryd golwg ehangach | | | | ✓ |
| | Yn defnyddio tystiolaeth i herio neu gefnogi safbwynt | | | | ✓ |
| | Yn ystyried goblygiadau penderfyniadau arfaethedig | | | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod penderfyniadau'n gysylltiedig â gwella perfformiad yn barhaus | | | | ✓ |
| | Yn meddu ar yr hyder i wneud penderfyniadau uchelgeisiol, anodd neu amhoblogaidd | | | | ✓ |
| | Yn gallu cyfiawnhau ac egluro penderfyniadau | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | Yn deall partneriaethau yng nghyd-destun y "darlun mawr" | | | | ✓ |
| | Yn hyrwyddo ac yn cymryd rhan weithredol mewn partneriaethau amlasiantaeth i wella gwasanaethau i'r dinesydd yn barhaus | | | | ✓ |
| | Yn rhwydweithio'n effeithiol, yn fewnol ac yn allanol | | | | ✓ |
| | Yn cydnabod, yn parchu ac yn defnyddio arbenigedd pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | | | | ✓ |
| | Yn chwilio am y bobl fwyaf priodol i gyfrannu at weithio mewn partneriaeth | | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Rheoli'r Rhyngwyneb Gwleidyddol** | Yn deall yr amgylchedd gwleidyddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol | | | | ✓ |
| | Yn parchu ac yn cadw at y cod ymddygiad proffesiynol ac yn cadw at egwyddorion cyfyngiad gwleidyddol | | | | ✓ |
| | Yn sefydlu ac yn gwella'n barhaus ryngweithio cadarnhaol a phriodol gyda'r holl gynghorwyr | | | | ✓ |
| | Yn codi materion ac yn herio'n adeiladol mewn modd priodol a sensitif | | | | ✓ |
| | Yn sicrhau bod eraill yn deall dimensiwn gwleidyddol eu gwaith | | | | ✓ |
| | Yn darparu cyngor proffesiynol amserol ac | | | | ✓ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | adeiladol o ansawdd uchel i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol | | | | |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall, e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychiad ac ati (nodwch) | Cyfnod Prawf / Hyfforddi Perfformiad |
| **Gwthio'r Ffiniau** | Yn herio'r *status quo* yn rheolaidd ac yn adeiladol | | | | ✓ |
| | Yn gadarnhaol am newid ac yn nodi manteision posibl i'r dinesydd | | | | ✓ |
| | Yn manteisio ar botensial arloesol a chreadigol eraill | | | | ✓ |
| | Yn ystyried gwahanol ddulliau / agweddau | | | | ✓ |
| | Yn annog eraill i awgrymu syniadau newydd | | | | ✓ |
| | Yn cefnogi ac yn datblygu syniadau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Yn edrych yn greadigol y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad am syniadau newydd ac yn mynd ati i rannu arferion da | | | | ✓ |